

Cyngor Adnewyddu'r Economi

Diweddariad ar Drafnidiaeth

Crynodeb

1. Ers y tro diwethaf i Gyngor Adnewyddu'r Economi ystyried papur ar faterion trafndiaeth ym mis Tachwedd 2011, mae'r ddogfen Blaenoriaethu'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol wedi'i chyhoeddi a gwelwyd cynnydd sylweddol mewn nifer o feysydd.
2. Mae'r papur hwn yn rhoi trosolwg o'r datblygiadau ac yn tynnu sylw at y materion allweddol sydd i ddod.

Y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol

3. Cyhoeddwyd y ddogfen Blaenoriaethu'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol ym mis Rhagfyr 2011. Ceir copi o ddogfen Blaenoriaethu'r Cynllun a dogfennau cysylltiedig yn: <http://wales.gov.uk/topics/transport/publications/ntp/?skip=1&lang=cy>.
4. Blaenoriaethwyd y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol ar sail yr ymyriadau a fyddai'n gwneud i'r system drafnidiaeth yng Nghymru weithio'n well er mwyn helpu i drechu tlodi, gwella lles a thyfu'r economi. Rydym yn canolbwyntio ar wella symudedd a chysylltedd fel y gall pobl gael gafael ar y pethau sydd eu hangen arnynt, fel swyddi, gofal iechyd, addysg, gofal plant, ffrindiau a pherthnasau. Yn gryno, gwnaethom flaenoriaethu buddsoddiad a fyddai'n:
 - cyfrannu at dwf economaidd, drwy fynd i'r afael â thagfeydd trefol a gwella mynediad i ardaloedd allweddol, a thrwy wella capasiti a dibynadwyedd ein llwybrau allweddol rhwng y dwyrain a'r gorllewin.
 - cyfrannu at ymdrechion i drechu tlodi drwy fynd i'r afael â'r problemau symudedd a hygyrchedd sy'n wynebu pobl sy'n byw mewn tlodi a byddwn yn sicrhau bod ein buddsoddiad sylweddol gyda chontractwyr yn creu cyfleoedd gwaith a hyfforddiant lleol.
5. Gwneir cynnydd da o hyd i gyflawni ymrwymadau allweddol.
6. Mae'r Cynlluniau Trafnidiaeth Cenedlaethol a'r Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol cyfredol yn ymdrin â'r cyfnod hyd at 2015. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu'r fframwaith polisi a chynllunio ar gyfer y cyfnod ar ôl 2015. Rwy'n gwbl glir mai'r blaenoriaethau allweddol a fydd yn ysgogi'r fframwaith newydd fydd darparu ymyriadau sy'n cefnogi swyddi a'r economi ac yn trechu tlodi, gan leihau effeithiau negyddol ar yr amgylchedd i'r eithaf ac annog dewisiadau mwy cynaliadwy.

Datblygiadau allweddol

7. Gwnaed cynnydd da i gyflawni amrywiaeth o ymyriadau a nodir yn y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol ym mhob math o drafnidiaeth. Cafwyd newyddion da hefyd ynghylch arian i ddarparu ymyriadau trafndiaeth yn y dyfodol. Mae'r paragraffau canlynol yn tynnu sylw at rai datblygiadau allweddol ers mis Tachwedd 2011.

Ffyrdd

8. O ran y rhwydwaith traffyrdd a chefnffyrdd, mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i gyfeirio buddsoddiad sylweddol at y gwaith o gynnal a chadw'r rhwydwaith, ei reoli a'i wella'n strategol. Mae hyn wedi cynnwys dros £50m o fuddsoddiad cyfalaf bob blwyddyn mewn gwelliannau a gwaith atgyweirio ar raddfa fawr i'r rhwydwaith, gan gynnwys datblygu, cynllunio a chyflawni prosiectau a mwy na £50m y flwyddyn ar arian refeniw i atgyweirio diffygion, cynnal a chadw a diogelu cydnerthedd y rhwydwaith. Mae'r arian hwn yn fuddsoddiad hollbwysig yn un o asedau pwysicaf Cymru gyda chost newid wedi'i dibrisio o fwy na £13bn.
9. Ymhlith y gwelliannau allweddol o ran cynnal a chadw a rheoli'r rhwydwaith mae:
- Gwaith i uwchraddio Twneli Conwy - £25m o fuddsoddiad dros y ddwy flynedd nesaf, gan ddechrau â chynllun £2m i wella'r goleuadau yn nhwnel yr A55 yng Nghonwy i gyfeiriad y gorllewin.
 - Adeiladu a gweithredu cynllun llwyddiannus i leihau tagfeydd ar gyffordd 32 yr M4 yn Coryton.
 - Gwella cydnerthedd y rhwydwaith drwy ddyblu cyflenwadau halen Cymru dros y tair blynedd diwethaf gyda mwy o storfeydd halen ledled Cymru.
10. Ymhlith yr uchafbwyntiau o ran gwaith ar raddfa fawr i wella'r seilwaith mae:
- A465 Blaenau'r Cymoedd:
 - o Cynhaliwyd Ymchwiliad Cyhoeddus Lleol ar Ran 3 Bryn-mawr i Dredegar ym mis Mawrth 2012. Ym mis Rhagfyr 2012 cawsom gadarnhad bod bron £82m o arian ERDF wedi'i ddyfarnu i'r cynllun a gwnaethom roi caniatâd i'r gwaith adeiladu ddechrau.
 - o Mae'r gwaith dylunio rhagarweiniol ar gyfer Rhan 2 Gilwern i Fryn-mawr yn mynd rhagddo. Mae disgwyl i Orchmynion drafft a Datganiad Amgylcheddol gael eu cyhoeddi yn ystod Haf 2013. Os caiff gweithdrefnau statudol eu cwblhau'n llwyddiannus, gallai'r gwaith adeiladu ddechrau yn 2014.
 - o Penodwyd cynghorwyr technegol ar gyfer Rhan 5 Dowlais Top i'r A470 a'r A465 a Rhan 6 A470 yn ystod Haf 2012. Ym mis Rhagfyr 2012, gwnaethom gyhoeddi y byddai mecanwaith buddsoddi heb ddifidend yn cael ei sefydlu i fuddsoddi tua £300m yn rhannau 5 a 6 o'r A465.
 - A487 o Gaernarfon i Bontnewydd - Cyhoeddwyd llwybr a ffefrir yn 2012 a chaiff Cynghorwyr Technegol eu penodi yn 2013 cyn caffael Contractwr ECI er mwyn mynd i'r afael â'r cynllun yn ddiweddarach yn y flwyddyn.
 - A483 Y Drenewydd - Caiff contractwr ECI ei benodi yn gynnar eleni er mwyn mynd i'r afael â'r cynllun hwn.
 - Yn 2012, dechreuodd gwaith adeiladu gwerth £13m ar ffordd fynediad Steelworks sy'n rhan o gynlluniau i greu ffordd ddeuol newydd i gysylltu Casnewydd â'r M4.
 - Bydd y gwaith adeiladu ar gynllun ffordd osgoi A477 Sanclêr i Ros-goch yn parhau drwy gydol 2013 a disgwylir cwblhau'r gwaith yn gynnar yn 2014. Bydd y ffordd hon yn gwella cysylltiadau â'r porthladd pwysig yn Noc Penfro ac, ar yr un pryd, yn gwella diogelwch, amseroedd teithio a dibynadwyedd y gefnffordd. Bydd hefyd yn lleihau sŵn traffig ac achosion lle caiff ardaloedd eu gwahanu y naill ochr a'r llall i'r

ffordd, yn ogystal â gwella diogelwch ac ansawdd aer i'r rhai sy'n byw ger y ffordd bresennol.

11. Y llynedd, drwy broses Mesurau Gwella Coridor yr M4 (M4 CEM), gwnaethom ymgynghori ar opsiynau i ystyried a datrys problemau'n ymwneud â chapasiti, diogelwch a chydnerthedd ar hyd coridor yr M4 yn ne-ddwyrain Cymru. Mae canlyniadau'r ymgynghoriad ar M4 CEM a chanlyniadau'r asesiadau cysylltiedig, gan gynnwys yr Asesiad Amgylcheddol Strategol, yn cael eu hystyried ar hyn o bryd a byddant yn llywio penderfyniadau ar y camau nesaf.
12. O ran y rhwydwaith ffyrdd lleol, rydym wedi parhau i roi arian i awdurdodau lleol gyflawni prosiectau etifeddol y Grant Trafnidiaeth. Mae'r uchafbwyntiau'n cynnwys:
 - Yn 2012, cafodd Ffordd Fynediad Ystad Ddiwydiannol Wrecsam ei hagor i draffig, gan roi mynediad llawer gwell i barth cyflogaeth sylweddol, sy'n ymestyn dros 500 hectar ac yn cynnwys tua 300 o gwmnïau sy'n cyflogi rhyw 7,200 o bobl.¹
 - Parhaodd gwaith yn 2012/13 ar Harbour Way, sef Ffordd Ddosbarthu Cyrion Port Talbot (PDR), y disgwylir iddi gael ei chwblhau yn 2013/14. Bydd y ffordd hon yn darparu cysylltiad 4.8km i'r M4 ar Gyffordd 38 (Parc Margam) i mewn i Bort Talbot a'r Dociau, a bydd yn gwella cysylltedd i fusnesau yn sylweddol.
13. Hefyd, gwnaethom sefydlu Menter Benthycia Llywodraeth Leol (LGBI) ym mis Chwefror 2012 er mwyn lleihau pwysau ar gyllidebau cynnal a chadw ffyrdd, gan alluogi awdurdodau lleol i ryddhau adnoddau a chael benthyciadau y gellid eu buddsoddi mewn cynlluniau lleol i wella priffyrdd. Dylai'r fenter hon olygu y caiff hyd at £170m o arian cyfalaf ychwanegol ei fuddsoddi mewn gwelliannau i briffyrdd yn ystod 2012/13 - 2014/15. Mae cynigion ar gyfer buddsoddiad LGBI yn 2013-14 wrthi'n cael eu hystyried.

Rheilffyrdd

14. O ran y seilwaith rheilffyrdd, er nad yw wedi'i ddatganoli, mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i fuddsoddi'n sylweddol mewn gwaith i wella'r seilwaith gan gydnabod y rôl allweddol y mae'r rheilffyrdd yn ei chwarae fel rhan o system drafnidiaeth Cymru.
15. Ymhlith yr uchafbwyntiau o ran gwaith ar raddfa fawr i wella'r seilwaith mae:
 - Ailddyblu'r brif linell i'r Gorllewin o Abertawe rhwng Tre-gŵyr a Chasllwchwr - mae Llywodraeth Cymru'n darparu £28m i'r prosiect hwn. Mae'r gwaith hwn yn cael ei gynnal ar yr un pryd â phrosiect Network Rail i adnewyddu Traphont Casllwchwr. Disgwylir cwblhau'r gwaith adeiladu yn ystod 2013.
 - Ailddyblu ac ailsignalu'r rheilffordd un llinell bresennol rhwng Wrecsam a Saltney Junction, Caer. Mae Llywodraeth Cymru'n ariannu'r prosiect £45m hwn, sydd hefyd yn cynnwys gwelliannau i gyflymder y llinell rhwng Gobowen ac Amwythig a gwelliannau i'r signalau yn Nhŷ-Croes ar Ynys Môn, fel rhan o'r prosiect Lleihau Amseroedd Teithio a Gwella'r Rheilffordd rhwng y Gogledd a'r De.
 - Mae Llywodraeth Cymru'n cyfrannu £15m i brosiect Ailsignalu Ardal Caerdydd (CASR) Network Rail sy'n werth £220m. Bydd y prosiect yn cynnwys platfformau newydd yng Nghaerffili, Pontypridd a'r Barri a dolen basio a phlatfform newydd yn Nhir Phil, ar linell Cwm Rhymni.

¹ http://www.wrexham.gov.uk/english/travel/wie_link.htm

- Cam olaf Rhaglen Gwella Gorsafoedd Cymru (NSIP+). Pecyn o gynlluniau gwerth £40m yw hwn a fydd yn gwella gorsafoedd a hygyrchedd ym Mhort Talbot Parkway, Pontypridd, y Rhyl, Ystrad Mynach ac Aberystwyth.
16. Cyflwynodd Llywodraeth Cymru achosion busnes amlinellol i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth dros drydaneiddio Llinellau'r Cymoedd i gyd a'r brif linell o Gaerdydd i Abertawe. Roeddwn yn falch clywed bod Llywodraeth y DU wedi derbyn y dadleuon ariannol ac economaidd cymhellol a gyflwynais yn yr achosion busnes ac wedi cynnwys y ddau brosiect yng nghyhoeddiad HLOS.
17. Rydym nawr yn gweithio'n agos gyda Network Rail ac Adran Drafnidiaeth y DU ar gyflawni'r prosiectau hyn dros y cyfnod hyd at 2019. Un o'n prif flaenoriaethau yw sicrhau bod y buddsoddiad hwn yn cyflawni cynifer o fuddiannau cymunedol â phosibl ac mae fy Adran i, ar y cyd â chydweithwyr o'r Adran Busnes, yr Economi, Technoleg a Gwyddoniaeth a'r Adran Addysg a Sgiliau, yn gweithio gyda Network Rail i sicrhau hyn.
18. Gan adeiladu ar drydaneiddio a gyda chymorth Cynghair Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru (Sewta), rwyf wedi sefydlu Tasglu i fynd i'r afael â'r gwaith o ddatblygu systemau trafndiaeth integredig yn ne-ddwyrain Cymru. Bydd y Tasglu yn datblygu argymhellion yn gynnar yn 2013 ar gyfer system deithio gyflym yn ne-ddwyrain Cymru sy'n defnyddio rheilffyrdd, rheilffyrdd ysgafn, bysiau a dulliau teithiol llesol sy'n diwallu anghenion y cyhoedd, busnesau a'r amgylchedd ac yn cysylltu cymunedau a swyddi. Rwyf hefyd yn sefydlu Tasglu tebyg i wneud argymhellion mewn perthynas â thrafnidiaeth integredig yng ngogledd-ddwyrain Cymru.
19. Yn dilyn trafodaethau â'r Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth y Llynedd, cyhoeddais yn gynharach y mis hwn y byddai Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Taith i ddatblygu'r achos busnes dros foderneiddio Prif Linell Arfordir Gogledd Cymru (o Gaergybi i Crewe), a'r rhwydwaith rheilffordd ehangach yng ngogledd-ddwyrain Cymru (gan gynnwys y llinell rhwng Wrecsam a Bidston, y llinell rhwng Wrecsam a Chaer, a'r llinell rhwng Caer a Warrington Bank Quay) er mwyn sicrhau bod gwaith moderneiddio yn dwyn cynifer o fuddiannau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol â phosibl i'r rhanbarth. Mae gwaith yn mynd rhagddo i bennu'r achos strategol dros fuddsoddi, a fydd yn diffinio cwrdd, amcanion a buddiannau'r prosiect ynghyd â rhestr hir o opsiynau. Bydd hyn yn ei dro yn arwain at lunio achos cadarn dros newid, a gaiff ei gwblhau yn ystod yr haf.
20. Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am reoli masnachfaint Cymru a'r Gororau, a weithredir gan Drenau Arriva Cymru, o ddydd i ddydd. Yn ogystal ag ariannu gwasanaethau craidd y fasnachfaint, rydym yn parhau i fuddsoddi mewn gwelliannau i'r gwasanaeth, er enghraifft:
- Y Gwasanaeth Cyflym Gwell rhwng y Gogledd a'r De - rydym yn ariannu'n uniongyrchol wasanaeth locomotif wedi'i foderneiddio sydd â seddi dosbarth uwch a chyfleusterau bwyta sy'n galluogi teithwyr yng Ngogledd Cymru i gyrraedd Caerdydd, drwy Wrecsam, cyn 10am gyda gwasanaeth nôl yn yr hwyr.
 - Cryfhau Llinellau'r Cymoedd - rydym yn ariannu'n uniongyrchol gapasiti ychwanegol yn ystod oriau prysur y bore a'r hwyr er mwyn galluogi pobl i fynd i'r gwaith.
 - Cryfhau Llinell y Cambrian - rydym yn ariannu'n uniongyrchol gapasiti ychwanegol ar wasanaethau prysur.

- Gwasanaethau ychwanegol i Abergwaun sy'n galw yng ngorsaf Abergwaun ac Wdig sydd newydd agor.

21. Ar hyn o bryd, Llywodraeth y DU yw awdurdod masnachfaint Cymru a'r Gororau, gyda Llywodraeth Cymru yn gyd-lofnodydd i'r fasnachfaint, ac mae'r rheilffyrdd yn eu cyfanrwydd yn fater annatganoledig i raddau helaeth. Rydym wrthi'n ystyried y rôl y gallai Llywodraeth Cymru ei chwarae yn nyfodol y rheilffyrdd yng Nghymru fel rhan o Raglen Dyfodol y Rheilffyrdd.
22. Daw masnachfaint bresennol Cymru a'r Gororau i ben yn 2018 ac rydym wedi dechrau gweithio i lywio datblygiad y fasnachfaint nesaf. Ein gweledigaeth yw y bydd gan Gymru wasanaeth rheilffordd sy'n diwallu anghenion ei theithwyr ac sydd ag enw da am safonau uchel, twf ac arloesedd. Yr her yw cyflawni hyn gan sicrhau bod trethdalwyr yn cael gwerth am arian ar yr un pryd. Rydym yn ymrwymedig i ystyried hyfywedd sefydlu masnachfaint Cymru a'r Gororau fel masnachfaint ddi-ddifidend, yn ogystal â masnachfaint sy'n seiliedig ar elw. Gwnaethom gynnal cynhadledd ym mis Hydref 2012 i agor y cais am dystiolaeth a byddwn yn ymgynghori ar ein dull o weithredu mewn perthynas â'r rheilffyrdd yn ddiweddarach eleni.
23. Rydym yn ystyried canfyddiadau ac argymhellion Adolygiadau Laidlaw a Brown o broses masnachfaint Prif Linell Arfordir y Gorllewin a threfniadau masnachfaint ehangach yn ofalus iawn fel rhan o'r gwaith hwn.

Gwasanaethau bysiau

24. Ym mis Mawrth 2012 cyhoeddais adolygiad trylwyr o'r arian rydym yn ei roi i gefnogi gwasanaethau bysiau a thrafnidiaeth gymunedol. Roeddwn yn benderfynol y dylai'r arian cyhoeddus a roddir i gwmnïau preifat gael ei wario ar y canlyniadau yr hoffai teithwyr eu gweld fwyaf a'r rhai sydd fwyaf tebygol o annog mwy o bobl i ddefnyddio bysiau. Dim ond y canlyniadau hyn a fydd yn helpu i ddiogelu incwm o docynnau teithio ac yn gwneud y rhwydwaith bysiau yn fwy cydnerth yn y tymor hwy.
25. Cynhaliwyd yr adolygiad mewn partneriaeth â llywodraeth leol yng Nghymru, y Consortia Trafnidiaeth Rhanbarthol, y diwydiant bysiau ac eraill. Ystyriwyd pam a sut rydym yn ariannu gwasanaethau bysiau a thrafnidiaeth gymunedol, a'r ffordd orau o ddefnyddio'r arian sydd gennym nawr a'r arian a all fod gennym yn y dyfodol.
26. Mae'r trefniadau presennol, sef rhoi arian i 22 o awdurdodau lleol, yn fwy biwrocrataidd na'r angen. Felly, yn y dyfodol, caiff arian ei ddarparu drwy ein Consortia Trafnidiaeth Rhanbarthol, a fydd yn arwain at arbedion maint o ran gwaith gweinyddol ac yn golygu y bydd yn rhaid ystyried gwasanaethau bysiau a thrafnidiaeth gymunedol ochr yn ochr â'r rheilffyrdd a'r mathau eraill o dtrafnidiaeth sy'n rhan o rwydwaith rhanbarthol. Bydd y Consortia yn datblygu strategaethau trafniadaeth gyhoeddus rhanbarthol yn ystod 2013-14 a fydd hefyd yn blaenoriaethu buddsoddiad i adlewyrchu'r arian sydd ar gael.
27. Bydd y cynllun newydd yn ein galluogi i nodi'n well pa dtrafnidiaeth gyhoeddus rydym yn ei chefnogi a pham, a bydd yn arwain at ddull llawer gwell o ddatblygu trafniadaeth integredig yng Nghymru.
28. Mae Deddf Trafnidiaeth 2000 a Deddf Trafnidiaeth Leol 2008 yn rhoi pwerau i awdurdodau lleol iunio Cynlluniau Partneriaeth Ansawdd Bysiau a Chontractau Ansawdd. O dan gynlluniau o'r fath, gall awdurdodau weithio'n agos gyda chwmnïau

bysiau i gynllunio a darparu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion cymunedau lleol. Bydd Cynllun Partneriaeth Ansawdd yn sicrhau bod awdurdodau lleol a chwmnïau bysiau yn cyflawni ymrwymïadau rhwymol sy'n rhannu'r amcan o wneud teithio ar fysiau yn opsiwn mwy deniadol i bawb. Gallai'r ymrwymïadau hyn gynnwys pennu uchafswm ar gyfer prisiau teithio a chydgyssylltu amserlenni.

29. Hoffwn weld mwy o Gynlluniau Partneriaeth Ansawdd Bysiau statudol yn cael eu rhoi ar waith er mwyn llywio'r gwasanaethau bysiau a ddarperir. Credaf fod partneriaethau gwirfoddol a statudol yn cynnig cyfleoedd gwirioneddol i gyflawni'r hyn rydym am i'r diwydiant bysiau ei ddarparu, ond byddaf yn parhau i adolygu'r mater, yn enwedig os nad oes llawer o dystiolaeth i ddangos bod digon o waith yn cael ei wneud i werthuso'r potensial i sefydlu partneriaethau.
30. O dan Gontractau Ansawdd, rhaid cael cydsyniad Gweinidogion Cymru i fasnachfreintiau bysiau, yn eu hanfod. Byddaf yn ceisio cyflwyno rheoliadau ynghylch hyn yn 2013-14, fel bod cyfres gyflawn o bwerau ar gael i ddylanwadu ar ddarpariaeth a safonau gwasanaethau bysiau, os na fydd y partneriaethau gwirfoddol a statudol yn ddigon gweithgar.

Teithio Llesol

31. Rydym wedi parhau i fuddsoddi'n sylweddol yn y seilwaith cerdded a beicio drwy raglenni fel Llwybrau Diogel mewn Cymunedau ac arian drwy'r Consortia Trafnidiaeth Rhanbarthol. Yn 2012-13 mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu bron £12 miliwn o arian cyfalaf i 90 o gynlluniau cerdded a beicio yng Nghymru.
32. Gwnaethom ymgynghori ar y Papur Gwyn ar Deithio Llesol yn 2012 ac rydym bellach yn gorffen paratoi'r Bil Teithio Llesol i'w gyflwyno i'r Cynulliad ym mis Chwefror 2013. Y bwriad yw y bydd y Bil yn galluogi rhagor o bobl i gerdded a beicio a theithio gan ddefnyddio trafndiaeth ddi-fodur yn gyffredinol. Rydym am sicrhau mai cerdded a beicio yw'r ffyrdd mwyaf naturiol ac arferol o deithio. Bydd y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wella cyfleusterau a llwybrau i gerddwyr a beicwyr yn barhaus a pharatoi mapiau ar eu cyfer sy'n dangos llwybrau sydd eisoes ar gael a rhai y gallent eu defnyddio yn y dyfodol. Bydd y Bil hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gynlluniau ffyrdd newydd (gan gynnwys cynlluniau gwella ffyrdd) ystyried anghenion cerddwyr a beicwyr ar y cam cynllunio.

Porthladdoedd a meysydd awyr

33. Mae porthladdoedd a meysydd awyr Cymru yn rhan hollbwysig o'n system drafnidiaeth ac mae ganddynt rôl hanfodol i'w chwarae i ddatblygu economi Cymru a gwella'r ddelwedd o Gymru ledled y byd.
34. Mae Tasglu Maes Awyr Caerdydd, a sefydlwyd gan y Prif Weinidog, wedi bod yn edrych yn fanylach ar yr opsiynau sydd ar gael i helpu i ddatblygu Maes Awyr Caerdydd ac, yn fwy diweddar, cyhoeddodd y Prif Weinidog fod Llywodraeth Cymru yn dilyn prosesau diwydrwydd dyladwy mewn perthynas â chamau posibl i brynu Maes Awyr Caerdydd.
35. Gwnaethom gydweithio'n agos iawn ag Adran Drafnidiaeth y DU drwy gydol 2012 ar ddynodi'r rhwydwaith TEN-T Craidd ac rydym wedi sicrhau bod nifer o borthladdoedd pwysig yng Nghymru wedi'u cynnwys yn y rhwydwaith Craidd. Byddwn yn parhau i

gydweithio'n agos ar y mater hwn wrth i fanylion y Rheoliadau ar gyfer rownd nesaf TEN-T gael eu cytuno.

Cludo nwyddau

36. Gwnaethom adolygu'r Strategaeth Cludo Nwyddau y llynedd a gofynnwyd am fewnbwn gan y diwydiant ar ei hynt hyd yma a blaenoriaethau i'r dyfodol. Nododd yr adolygiad gynnydd cadarnhaol mewn amrywiaeth o feysydd gweithredu a amlinellwyd yn y Strategaeth, yn ogystal â rhai meysydd lle na welwyd cynnydd cystal â'r bwriad.
37. Rhennais ganfyddiadau'r adolygiad ac argymhellion ynghylch y ffordd ymlaen â Grŵp Cludo Nwyddau Cymru, ar ei newydd wedd, ar 17 Ionawr ac edrychaf ymlaen at weithio gyda phartneriaid yn y sector cludo nwyddau i fynd i'r afael â'r agenda hon.

Arian

38. Mae'r papur yn rhoi nifer o enghreifftiau o'r ffordd rydym yn defnyddio dulliau ariannu arloesol i gefnogi buddsoddiad mewn trafnidiaeth, er enghraifft LGBTI a'r SPV arfaethedig a fydd yn darparu rhannau 5 a 6 o waith Blaenau'r Cymoedd. Rydym wedi gweithio'n galed i sicrhau arian ychwanegol hefyd. Mae hyn yn cynnwys nifer o achosion busnes llwyddiannus dros gael arian cyfalaf ychwanegol o gronfeydd cyfalaf canolog Llywodraeth Cymru, er enghraifft, er mwyn ariannu gwaith i wella Twneli Conwy. Mae hefyd wedi cynnwys achosion busnes llwyddiannus sydd wedi sicrhau Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd, er enghraifft, mewn perthynas â gwelliannau i orsafoedd rheilffyrdd a rhan 3 o waith Blaenau'r Cymoedd. Rydym hefyd wedi llunio achosion busnes sydd wedi perswadio Llywodraeth y DU i fuddsoddi mewn prosiectau ychwanegol yng Nghymru, er enghraifft, trydaneiddio Llinellau'r Cymoedd a thrydaneiddio'r brif linell rhwng Caerdydd ac Abertawe.
39. Byddwn yn parhau i weithio i sicrhau cymaint o arian â phosibl er mwyn cyflawni blaenoriaethau trafnidiaeth yng Nghymru.
40. Mae gwneud gwelliannau strategol i'r M4 yn ardal Casnewydd yn flaenoriaeth hirdymor allweddol i Lywodraeth Cymru. Yn Natganiad yr Hydref, cadarnhaodd Canghellor y Trysorlys ymrwymiad parhaus Trysorlys y DU i weithio gyda Llywodraeth Cymru er mwyn gwella'r M4. Mae trafodaethau yn mynd rhagddynt â Llywodraeth y DU ynghylch pecyn ariannu posibl i wella'r M4 a threfniadau codi tollau yn y dyfodol ar gyfer Pontydd Hafren.

Carl Sargeant AC

Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau